

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

Ionawr 2025

1. Cyflwyniad

1. Ar 18 Medi 2024, gosododd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ('Ysgrifennydd y Cabinet') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig). ('y Memorandwm') gerbron y Senedd. Ar 24 Medi 2024, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad terfynol o 22 Tachwedd 2024 i gyflwyno adroddiad.

2. Ar 4 Tachwedd 2024, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ('Memorandwm 2').

3. Ar 4 Tachwedd 2024, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arall ar gyfer y Bil ('Memorandwm 3').

4. Ar 4 Rhagfyr 2024, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arall ar gyfer y Bil ('Memorandwm 4') gerbron y Senedd.

Ein dull ni

5. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Memorandwm ar 16 Hydref 2024, Memorandwm 2 ar 27 Tachwedd, Memorandwm 3 ar 12 Rhagfyr, a Memorandwm 4 ar 8 Ionawr.



- 6.** Roedd gwaith craffu'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y Memorandwm cyntaf. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth lafar gan Cyfoeth Naturiol Cymru ('CNC') ar 3 Hydref, yn ystod sesiwn graffu amserol, a chan Ysgrifennydd y Cabinet ar 16 Hydref 2024.
- 7.** Ar ôl ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at randdeiliaid i ofyn am eu barn ar y darpariaethau yn y Bil. Gellir gweld yr ymatebion ar wefan y Pwyllgor.

2. Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

8. Cyflwynwyd y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) ('y Bil') yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi 2024.

Amcan polisi

9. Yn ôl ei Nodiadau Esboniadol, mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cael eu dwyn i gyfrif yn well pan fyddant wedi methu â chyflawni ar gyfer yr amgylchedd a chwsmeriaid.

10. Mae'r Memorandwm cyntaf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn adleisio hyn: "Mae'r Bil arfaethedig yn ymateb i'r methiannau eang canfyddedig gan y sector dŵr o ran mynd i'r afael â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio."

11. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y canlynol:

- Gwahardd bonysau i bersonau sy'n dal uwch rolau lle mae cwmnïau dŵr yn methu â bodloni safonau gofynnol sy'n ymwneud â materion defnyddwyr, yr amgylchedd, cydnerthedd ariannol neu atebolrwydd troseddol;
- cyflwyno prawf person addas a phriodol ar gyfer swyddogion gweithredol cwmnïau dŵr;
- sicrhau cynrychiolaeth defnyddwyr ar fyrddau cwmnïau dŵr;
- ymestyn pŵer dedfrydu'r Llysoedd i gynnwys carcharu ym mhob achos lle mae unigolion wedi rhwystro ymchwiliadau Asiantaeth yr Amgylchedd, CNC a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed;
- galluogi Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC i godi cosbau awtomatig am restr ddiffiniedig o droseddau;
- gostwng safon y prawf ar gyfer sancsiynau sifil Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC er mwyn galluogi cosbau cyflymach i gael eu codi am fân droseddau i droseddau cymedrol;
- ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi data sydd bron mewn amser real ar ollyngiadau o orlifoedd brys;

- ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr yn Lloegr gynhyrchu cynlluniau blynyddol ar gyfer lleihau achosion o lygredd;
- cyflwyno pŵer newydd i Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC adennill costau gan gwmnïau dŵr ar gyfer gweithgareddau gorfodi;
- caniatáu ar gyfer adennill costau'n well i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed;
- addasu trwyddedau cwmnïau dŵr i adennill diffyg os bydd cwmni dŵr yn ansolfedd neu'n torri amodau'n ddifrifol; a
- sicrhau bod Llywodraeth y DU ac Ofwat yn cael eu hysbysu cyn unrhyw ddeisebau dirwyn i ben.

Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

12. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar 18 Medi 2024.

13. Cytunodd Llywodraethau'r DU a Chymru, ar adeg ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi, fod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer holl gymalau'r Bil, ac eithrio cymalau 2 (Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd) a 10 (Addasiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i amodau penodi cwmni dŵr, ac ati, i adennill colledion), nad oedd yn berthnasol i Gymru.

Memorandwm 2

14. Gosodwyd Memorandwm 2 gerbron y Senedd ar 4 Tachwedd 2024. Mae Memorandwm 2 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Disgrifiodd Llywodraeth Cymru y gwelliannau fel rhai a oedd yn "fân ac yn dechnegol eu natur". Roedd y diwygiadau yn ymwneud â'r cymalau a ganlyn –

- Cymal 5 – Cosbau sifil: addasu safon brofi;
- Cymal 6 – Cosbau awtomatig am droseddau penodol;
- Cymal 7 – Tynnu a chronni: pŵer i osod amodau cyffredinol;
- Cymal 8 – Taliadau mewn perthynas â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a Chorff CNC.

15. Yn unol â'u safbwynt ym mharagraff 13 uchod, cytunodd Llywodraethau Cymru a'r DU y byddai angen cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd ar gyfer y cymalau hyn, fel y'u diwygiwyd.

16. Mae Memorandwm 2 yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn "ceisio gwelliant i ymestyn Cymal 2(Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd) i Gymru" a bod disgwyl i'r gwelliant hwn gael ei gyflwyno yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Memorandwm 3

17. Gosodwyd Memorandwm 3 gerbron y Senedd ar 27 Tachwedd 2024. Roedd Memorandwm 3 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Maent yn cynnwys gwelliant i ymestyn Cymal 2 (Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd) i Gymru, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru.

18. Yn ôl Memorandwm 3, cyflwynwyd 65 o welliannau yn y cyfnod hwnnw, y gellid eu grwpio fel a ganlyn –

- Cymal 2: Estyn cymhwysedd i Gymru;
- Cymal 2: Gwneud Prif Weithredwyr yn atebol yn bersonol am gynhyrchu Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd (PIRPs);
- Cymal 2: Ehangu'r ddyletswydd i greu PIRPs fel ei bod yn gymwys i gwmnïau cyflenwi dŵr yn ogystal â chwmnïau carthffosiaeth;
- Cymal 2: Ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr ddarparu adroddiad gweithredu blynyddol gyda'u PIRPs;
- Cymal 2: Ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr amgylcheddol ystyried record cwmnïau dŵr o ran rhoi'r cynlluniau hyn ar waith wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddio craidd;
- Cymal Newydd: Ehangu dyletswyddau Ofwat i gynnwys rhoi sylw i dargedau newid hinsawdd a bioamrywiaeth sy'n weithredol yn Lloegr (ond nid yng Nghymru); a
- Cymal Newydd: Cynnwys dyletswydd ar gwmnïau dŵr i roi sylw dyledus i atebion sy'n seiliedig ar natur wrth gynhyrchu cynlluniau draenio a dŵr gwastraff (DWMPs).
- Gwelliannau canlyniadol i Gymal 13 ynghylch cychwyn y cymalau newydd ac estyn Cymal 2 i Gymru.

19. Cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU y byddai angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn.

Memorandwm 4

20. Gosodwyd Memorandwm 4 gerbron y Senedd ar 4 Rhagfyr 2024.

21. Mae Memorandwm 4 yn ymwneud â dau welliant anllywodraethol a basiwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r ddau welliant yn ymwneud â Chymal 1 (rheolau ynghylch taliadau a llywodraethiant) y Bil. Cytunodd Llywodraethau Cymru a'r DU fel ei gilydd y byddai angen cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gydsyniad

22. Ym Memorandwm 4, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio, "mae dŵr yn ei hanfod yn fater trawsffiniol, ac mae effeithiau amgylcheddol ansawdd dŵr yn fater na allwn ei ddatrys ar ein pennau ein hunain." Gan gyfeirio at ba mor ddymunol fyddai Senedd y DU yn deddfu ar ran Cymru, ychwanega Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

"Mae rhai rheoliadau a chyfreithiau hefyd yn gymwys yng Nghymru a Lloegr ill dwy. Mae dull cydgysylltiedig yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb rheoleiddiol. Mae rhai elfennau o'r Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, yn enwedig o ran ansolfedd, felly ni fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir gan y Senedd mor gynhwysfawr â'r cynigion cyfredol."

23. Mae Memorandwm 4 Llywodraeth Cymru yn cloi gyda barn Ysgrifennydd y Cabinet, fel a ganlyn:

"mae'n briodol delio â'r gwelliannau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU trwy Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan fod amcanion y Bil yn cyd-fynd yn llwyr â pholisi Llywodraeth Cymru, mae'r mater yn un trawsffiniol yn ei hanfod sy'n gofyn am gydweithio a chydlynw rhwng ein dwy Lywodraeth."

24. Argymhellodd Llywodraeth Cymru y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion, a rhoi ei chydsyniad.

3. Tystiolaeth gan randdeiliaid ac Ysgrifennydd y Cabinet

Taliadau a Llywodraethiant (Cymal 1)

25. Pwysleisiodd Dŵr Cymru yr angen i sicrhau y gallai cynigion y Bil gynnwys ei fodel llywodraethiant dielw. Argymhellodd fod y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i Ofwat deilwra rheolau ar gyfer cwmnïau sy'n gweithredu o dan fodolau gwahanol. Dywedodd Hafren Dyfrdwy na ddylai'r arfaethedig ynghylch taliadau a llywodraethiant fod yn gymwys yn ôl-weithredol. Roedden nhw hefyd yn dadlau y dylai'r rheolau dargedu uwch swyddogion gweithredol yn unig, fel cyfarwyddwyr statudol.

26. Dywedodd Prif Weithredwr Ofwat, David Black, fod gan y cynigion y potensial i ysgogi newid sylweddol yn niwylliant ac arweinyddiaeth cwmnïau. Amlinellodd gynlluniau Ofwat i ymgynghori ar y rheolau llywodraethiant a gynigir gan y Bil.

27. Mynegodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ei gefnogaeth i'r Bil, yn enwedig y cynigion sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynrychiolwyr defnyddwyr gymryd rhan ar fyrddau, pwyllgorau, neu baneli cwmnïau dŵr. Cynigiodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru sefydlu paneli defnyddwyr annibynnol ar gyfer pob cwmni dŵr yng Nghymru, o dan arweiniad y Cyngor hwnnw.

28. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r cynigion, yn enwedig y Cod Ymddygiad, fel mecanwaith i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn gweithredu er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd. Pwysleisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid ymgynghori ag ef ar ddatblygiad y rheolau llywodraethiant arfaethedig yn y Bil.

Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd (Cymal 2)

29. Nid oedd gan Dŵr Cymru unrhyw wrthwynebiad i fabwysiadu Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd blynyddol. Awgrymwyd ganddynt y dylai Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru chwarae rhan wrth benderfynu ar gynnwys a gofynion y cynlluniau hyn. Byddai hynny'n sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau a pholisïau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

30. Pwysleisiodd Hafren Dyfrdwy ei hanes cryf o ran perfformiad amgylcheddol a buddsoddi mewn lleihau llygredd. Roedd o'r farn fod y mecanweithiau presennol eisoes yn effeithiol, a theimlai na fyddai unrhyw anfanteision o ran bod y darpariaethau'n gymwys yng Nghymru.

31. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru, ac yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i gwmnïau dŵr ymgynghori â Gweinidogion Cymru a dilyn canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru wrth baratoi eu cynlluniau.

Gorlifoedd Argyfwng (Cymal 3)

32. Cadarnhaodd Dŵr Cymru fod Monitorau Hyd Digwyddiad eisoes wedi'u gosod ar eu holl orlifoedd storm cyfunol. Yn amodol ar gymeradwyaeth Ofwat i'w Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2025-30 (Cynllun Busnes AMP8), bydd Monitorau Hyd Digwyddiad wedi'u gosod ym mhob gorlif brys erbyn 2030 hefyd.

33. Roedd Hafren Dyfrdwy yn cefnogi'r darpariaethau hyn. Cafwyd wybod ganddynt fod Monitorau Hyd Digwyddiad eisoes wedi'u gosod ar eu holl orlifau storm, a'u bod yn gweithio i osod Monitorau Hyd Digwyddiad ychwanegol ar orlifoedd brys mewn gorsafoedd pwmpio. Roeddent wedi lansio map gorlif stormydd byw yn 2024 ac yn barod i ehangu eu galluedd o ran adrodd, er mwyn bodloni gofynion y Bil.

34. At hynny, mynegodd Ofwat gefnogaeth i'r darpariaethau mewn perthynas â gorlifoedd brys, a nododd fod dyletswydd adrodd debyg mewn amser real ar gyfer gollyngiadau o orlifoedd *stormydd* eisoes wedi'u cynnwys yn Neddf yr Amgylchedd 2021. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau yn Neddf y DU honno'n berthnasol i gwmnïau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl, neu'n bennaf, yng Nghymru.

35. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn croesawu'r gofynion hyn. Amlygwyd ganddynt fod gosod Monitorau Hyd Digwyddiad ar bob gorlif stormydd ac argyfwng yng Nghymru erbyn 2030 yn rhan o Raglen Amgylchedd Genedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y ffaith nad yw gwybodaeth fyw o orlifau storm – er ei bod yn cael ei hadrodd yn wirfoddol, ar hyn o bryd – yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Cosbau Sifil: Cosbau sifil: addasu safon brofi (Cymal 5)

36. Er bod Dŵr Cymru yn cydnabod nod y Bil i hwyluso erlyniad o dan yr egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu', cododd bryderon ynghylch gostwng y trothwy tystiolaethol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd proses apelio.

37. Nid oedd Hafren Dyfrdwy yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i'r trothwy tystiolaethol, ond pwysleisiodd yr angen am ganllawiau clir i sicrhau bod y darpariaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson.

38. Croesawodd Cyfoeth Naturiol Cymru'r cynigion i ostwng y trothwy tystiolaethol. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt fod eu pwerau presennol i roi sancsiynau sifil yn gyfyngedig, a galwyd am newidiadau i'w gwneud yn bosibl cymhwyso sancsiynau sifil i droseddau cwmnïau dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Cosbau awtomatig am droseddau penodol (Cymal 6)

39. Roedd Dŵr Cymru yn cefnogi, mewn egwyddor, y defnydd o gosbau, ond awgrymodd y dylai'r Bil neu'r rheoliadau ategol wneud mwy o ddefnydd o Ymrwymadau Gorfodi Amgylcheddol, sy'n caniatáu i reoleiddwyr gyfeirio enillion dirwyon at brosiectau lleol sydd â'r nod o wella'r amgylchedd.

40. Roedd Hafren Dyfrdwy yn cefnogi'r egwyddor o gosbau awtomatig, ond yn galw am fwy o eglurder ynghylch y troseddau y byddai'r cosbau hyn yn berthnasol iddynt, a chap ar ddirwyon.

41. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru, hefyd, yn cefnogi'r cynigion.

Taliadau mewn perthynas â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a Chorff Cyfoeth Naturiol Cymru (Cymal 8)

42. Croesawodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddarpariaethau'r Bil i alluogi'r sefydliad i adennill costau gweithgareddau gorfodi. Mynegodd Hafren Dyfrdwy bryder ynghylch y cynnydd sylweddol diweddar mewn taliadau hawlenni a thrwyddedau, ac roedd o'r farn y dylai arian sy'n deillio o'r darpariaethau gael ei neilltuo.

Gweithredu

43. Mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru bryder ynghylch yr amserlenni arfaethedig ar gyfer gweithredu'r darpariaethau yn y Bil. Roeddent yn deall bod Llywodraeth y DU yn anelu at roi mesurau ar waith yn Lloegr erbyn mis Ebrill 2025, ond byddai amserlen debyg yn heriol yng Nghymru yn wyneb y pwysau ariannol yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wynebu.

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

44. Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet gefnogaeth i'r darpariaethau yn y Bil ynghylch llywodraethiant cwmnïau dŵr. Cydnabu y byddai angen rhoi ystyriaeth arbennig i fodel gweithredu di-elw Dŵr Cymru.

45. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru i arian sy'n deillio o gosbau aros yng Nghymru, a'i ddefnyddio i gefnogi cyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Roedd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn yn mynd rhagddynt.

46. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod darpariaethau'r Bil yn ceisio sicrhau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru adennill costau gorfodi a thrwyddedu, a oedd yn cydfynd ag amcan Llywodraeth Cymru i ganiatáu i reoleiddwyr adennill costau o'r fath yn llawn.

47. Gan gyfeirio at y darpariaethau ar gyfer ehangu sancsiynau sifil, eglurodd Adriana Kiss (Llywodraeth Cymru) fod eisoes gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau sancsiynau sifil o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, a bod Gorchymyn a wnaed yn 2010 yn nodi'r mathau o ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth benodol y gall Cyfoeth Naturiol Cymru eu defnyddio ar gyfer sancsiynau sifil – y cosbau ariannol penodedig amrywiol, neu'r cosbau ariannol amrywiadwy. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y ffaith y byddai cynnig y Bil i ostwng y trothwy tystiolaethol yn galluogi gorfodi troseddau amgylcheddol yn haws.

48. Mewn ymateb i bryderon ynghylch Cymru yn cael ei heithrio o gynlluniau lleihau llygredd statudol yn y Bil a gyflwynwyd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn wedi newid yn dilyn trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad, byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio gwelliant i ymestyn gofynion Cymal 2 i Gymru.

49. O ran monitro gorlifoedd brys a stormydd, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet sicrwydd i'r Pwyllgor fod Monitorau Hyd Digwyddiad ar gyfer gorlifoedd stormydd eisoes ar waith. Roedd y gwaith o osod EDMs ar gyfer gorlifoedd brys yn mynd rhagddo a disgwyliid iddo gael ei gwblhau cyn y terfyn amser o 2035 a bennwyd gan y Bil.

4. Casgliadau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil. Fodd bynnag, mae cwestiynau ynghylch pa mor ddymunol fyddai cael Senedd y DU yn deddfu ar ran Cymru ar faterion datganoledig. Mae hwn yn fater yr ydym wedi'i godi'n gyson yn ein hadroddiadau ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

O ran y darpariaethau manwl, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i'r darpariaethau llywodraethiant yn y Bil allu cynnwys model perchnogaeth unigryw Dŵr Cymru. Byddem yn ddiolchgar am sicrwydd gan Ysgrifennydd y Cabinet mai dyma fydd y sefyllfa.

Rydym yn cefnogi'r cynigion i gryfhau mewnbwn defnyddwyr drwy baneli defnyddwyr annibynnol, fel yr awgrymwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar eu cynigion ar y mater hwn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil mewn perthynas â Monitoriaid Hyd Digwyddiad ar gyfer gorlifoedd brys. At hynny, rydym yn croesawu'r sicrwydd bod gan bob gorlif stormydd yng Nghymru Fonitoriaid Hyd Digwyddiad ar waith, erbyn hyn. Fodd bynnag, rydym yn nodi – yn wahanol i Loegr – nad oes gofyniad statudol yng Nghymru i Fonitoriaid Hyd Digwyddiad fod yn eu lle ar gyfer gorlifoedd stormydd. Rydym yn ceisio sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet bod y safonau sy'n cael eu bodloni'n wirfoddol yng Nghymru o leiaf mor uchel â'r rheini yn Lloegr, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Os nad yw hyn yn wir, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried deddfwriaeth i gysoni arferion Cymru â'r rheini yn Lloegr.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r awgrym gan nifer o randdeiliaid y dylai arian sy'n deillio o gosbau, neu drwy agweddau eraill ar y ddeddfwriaeth, gael ei ddychwelyd yn uniongyrchol i Gymru. Cawsom wybod gan Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn cefnogi'r safbwynt hwn, a bod Llywodraethau Cymru a'r DU yn trafod sut y gellid ei chyflawni. Byddem yn gwerthfawrogi diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y mater hwn.

Yn olaf, roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch ymarferoldeb bodloni amserlen arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Bil. Byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet ar ei drafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid ar y mater hwn.

Yn amodol ar y materion a godwyd uchod, nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm i wrthwynebu i'r Senedd roi cydsyniad i Senedd y DU ddeddfu ar ran y Senedd ar y materion perthnasol a nodir yn yr adroddiad.